



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gwaun Gynfi

**Deiniolen
Gwynedd
LL55 3LT**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gwaun Gyfni

Enw'r darparwr	Ysgol Gwaun Gyfni
Awdurdod lleol	Gwynedd
Iaith y darparwr	Cyfrwng Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	143
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	119
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	10
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd <i>(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)</i>	33%
Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) <i>(Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%)</i>	25%
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref	60%
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad y penodwyd y pennaeth	01/01/2017
Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol)	17/09/2013
Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn	09/05/2022
Gwybodaeth ychwanegol	

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](http://gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Nodweddd arbennig yw ymroddiad yr ysgol i ddarparu ystod o grwpiau anogaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus. Er yr heriau mae'r ysgol wedi eu hwynebu o ganlyniad i gyfnod y pandemig, mae'r ymdeimlad o gymuned glòs ymhlith rhieni, staff a disgyblion wedi golygu ei bod wedi wynebu'r her gyda gwydnwch amlwg.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda phwyslais amlwg ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu medrau creadigol disgyblion sy'n cyfrannu'n hynod effeithiol at fagu eu hunanhyder a'u gallu i gydweithio.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn llwyddiannus, er nad ydynt bob amser yn cymhwyso'r medrau hyn yn ddigon da ar draws y cwricwlwm. Maent yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu dysgu eu hunain, ac i fod yn ddysgwyr annibynnol wedi datblygu'n llawn. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chaiff ei chynorthwyo'n dda gan y dirprwy. Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn gofyn cwestiynau heriol ynglŷn â phenderfyniadau pan fo angen. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos ac effeithiol fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy.

Argymhellion

- A1 Cryfhau'r cyfleoedd i'r disgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol
- A2 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- A3 Datblygu ymhellach uwch fedrau darllen a thrin data digidol disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos, i'w lledaenu ar wefan Estyn, ar ei gwaith mewn perthynas a'r ddarpariaeth iechyd a lles sy'n cael effaith hynod gadarnhaol yn enwedig ar y disgyblion mwyaf bregus.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda. Un nodwedd arbennig yw sut mae disgyblion bregus yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r pandemig wedi arafu cynnydd lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig o ran eu uwch sgiliau darllen, eu medrau ysgrifennu estynedig a'u gallu i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth gydag athrawon a disgyblion eraill yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hynny lle na siaredir y Gymraeg gartref yn brysyr adennill hyder gyda'r iaith. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer yn siarad am bethau o'u profiad ac yn rhannu gwybodaeth yn gynyddol hyderus. Mae llawer yn siarad yn ddealladwy ac yn cyfrannu'n ddilys at weithgareddau dosbarth. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn trafod eu gwaith gyda hyder cynyddol wrth archwilio a thrafod gwahanol ddeunyddiau sydd wedi dod o'r môr, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Mae llawer yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol ac yn defnyddio iaith gyfoethog a geirfa bwrpasol wrth drafod eu gwaith. Maent yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth drafod creu cymeriad wedi ei seilio ar artifactau o'r gorffennol. Er yr heriau y maent wedi eu hwynebu yn ystod y pandemig, mae medrau iaith lafar rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i ddatblygu'n gyson ac yn cyrraedd safonau uchel.

Mae rhan fwyaf disgyblion y dosbarth meithrin a derbyn yn datblygu dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau a sut y caiff seiniau eu cyfuno i ffurfio geiriau. Erbyn Blwyddyn 2 mae llawer yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol gyda datblygiad da yn eu medrau ffonig i ddatgelu geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion uwch eu gallu yn darllen gyda rhuglder a hyder cynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er hyn, mae ychydig yn ansicr ar brydiau wrth geisio darllen geiriau anghyfarwydd neu aml sill. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn darllen yn gywir gyda goslef glir ac eglur. Ar y cyfan, maent yn dangos dealltwriaeth wybodus o'r cyd-destun. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol oddiar wefanau priodol. Yn gyffredinol, nid yw uwch fedrau darllen disgyblion wedi datblygu'n ddigonol er mwyn gallu dehongli a deall ystyr yn effeithiol wrth ganfod gwybodaeth.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn mae rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn defnyddio llawysgrifen ddealladwy wrth ysgrifennu. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa addas ac yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Ar frig yr ysgol, maent yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu storïau dychmygus. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio geirfa gyfoethog yn y ddwy iaith ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio

paragraffau'n gywir. Maent yn cynhyrchu gwaith o safon uchel, er enghraifft wrth ysgrifennu am brofiadau efaciwis yn yr Ail Ryfel Byd. Er hyn, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cymwysu eu medrau ysgrifennu ymestynol ar draws y cwricwlwm.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, gynnydd cadarn â'u mathemateg a rhifedd. Erbyn Blwyddyn 2 mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth dda o strategaethau rhif ac yn eu defnyddio'n hyderus, er enghraifft wrth ddatrys problemau arian. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol. Maent yn gynyddol hyderus wrth gymwysu'r medrau hyn, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 ddatrys problemau amser. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen a dulliau cofnodi ac yn cymhwysu eu medrau'n llwyddiannus wrth gymharu prisiau mewn siopau lleol. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn gweithio'n ddigon annibynnol, er enghraifft wrth ddewis y strategaeth fwyaf addas i ddatrys problemau. Lleiafrif sydd yn cymhwysu eu medrau rhesymu ac ymholi yn ddigon cyson mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol i gofnodi eu gwaith, ac yn defnyddio amrywiaeth o raglenni yn gynyddol hyderus i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth ailadrodd stori Croeso i'r Gragen. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn, yn hyderus wrth ymchwilio, er enghraifft, am wybodaeth o wahanol ffynonellau am bererindod Bernadette i Lourdes. Maent yn defnyddio pecynnau masnachol addas i wneud cyflwyniadau amlgyfrwng o'u gwaith wrth gymharu Cymru ac Iwerddon, er enghraifft. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn groesawgar a chwrtais ac yn dangos gofal a pharch at ei gilydd ac at oedolion.

Yn dilyn y cyfnodau clo o ganlyniad i'r pandemig, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi ymgysylltu a gweithgareddau a threfniadau'r ysgol yn gyson dda gan ddangos agweddau ac ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ychydig o ddisgyblion sy'n wynebu heriau o ran cynnal ymddygiad da a chyd-chwarae â'u cyfoedion yn cael eu cefnogi yn effeithiol a'u parchu gan eu cymheiriaid.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r defnydd o amrywiaeth o strategaethau i gefnogi llesiant emosiynol disgyblion trwy feithrin gwydnwch a datblygu'u hunan-barch a'u medrau cymdeithasol. Enghraifft nodedig yw'r defnydd a wneir o anifeiliaid anwes yn ystafell y jyngl gan gynnwys Lili'r ci sy'n rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dysgu i barchu ac i ofalu am yr anifeiliaid ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i reoli eu hemosiynau eu hunain mewn cyfnodau o bryder. Mae hyn yn cael effaith hynod o gadarnhaol ar allu'r disgyblion bregus i ymdawelu ac ystyried y rhesymau dros eu hymddygiad a'i effaith ar eraill. Mae hyn yn datblygu eu hyder yn llwyddiannus a'u gallu i ryngweithio'n fwy effeithiol â disgyblion eraill.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn ymdawelu yn y dosbarth ac yn barod i gydweithio'n â'i gilydd. Mae llawer yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n gweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae rhan fwyaf y disgyblion iau yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol. Maent bob amser yn barod i ddysgu ac yn canolbwyntio'n dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r cyfleoedd a gânt i benderfynu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau testunau astudio newydd. Maent yn hoffi penderfynu pa agweddau yr hoffent wybod mwy amdanynt, er enghraifft wrth i ddisgyblion iau ddysgu mwy am fywyd o dan y môr. Mae hyn yn eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i ddysgu. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y disgyblion hŷn wrth ymchwilio i drychineb y Titanic ac wrth drafod y dull orau i i dynnu llun wynebau wrth efelychu dulliau artistiaid enwog. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw rôl disgyblion wrth arwain eu dysgu eu hunain, i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac i fod yn ddysgwyr annibynnol wedi datblygu'n llawn.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol gan gynnwys rhedeg neu gerdded milltir y dydd yn yr ysgol ac ymuno â chlybiau chwaraeon ar ôl ysgol ac o fewn y gymuned. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn yr ysgol a thu hwnt gan gynnwys eu defnydd o'r rhyngwyd.

Maent yn falch o'u cyfraniad at weithgareddau codi arian, er enghraifft drwy godi arian tuag at helpu pobol o Wcráin. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach, ac yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad moesol.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yn datblygu perthynas waith agos a chlòs gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn annog eu cyfranogiad a chanmol eu hymdrechion tra'u bod yn gweithio, a rhyngweithio gyda'u cymeiriaid yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol i greu cwricwlwm difyr sy'n herio'r disgyblion, ac yn ennyn eu brwdfrydedd. Mae trefniadau addas yn eu lle ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn seiliedig ar y pedwar diben i fodloni egwyddorion cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cynllunio'n feddylgar ar gyfer profiadau dysgu sy'n adlewyrchu cyd-destun ac ethos yr ysgol, ac yn annog pob un o'r disgyblion i ehangu eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a bod yn uchelgeisiol ar gyfer eu dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol ac yn hybu rhan fwyaf y disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae holl aelodau staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru ac yn adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. Er enghraifft, drwy'r prosiect Llechi darparwyd cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gydweithio â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i wella medrau llythrennedd, medrau creadigol a'u medrau ehangach. Drwy gerdded yr hen lwybrau a chyfrannu'n fedrus at ddatliad hanner can mlynedd y papur bro, maent yn ehangu eu dealltwriaeth o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod. Mae athrawon hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth o'r byd ehangach. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion hŷn ar brofiad faciwi's yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac wrth ymchwilio i wybodaeth am y trychineb diweddar yn Wcráin.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n gadarn ar ddatblygu medrau disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol iddynt. Mae'r holl staff, yn creu ardaloedd dysgu deniadol a difyr ac yn darparu amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Maent yn cyflwyno themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth gynllunio profiadau dysgu apelgar i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn effeithiol. Yn gyffredinol, maent yn cysylltu eu gwersi'n fedrus er mwyn sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion adeiladu ar ddysgu blaenorol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu pwrpasol, sy'n cymhell rhan fwyaf y disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Mae cydweithio cynhyrchiol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth fuddiol ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Serch hynny, mae tueddiad ar adegau i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r ardal tu allan i gefnogi dysgu. Mae'r disgyblion iau yn cael cyfleoedd cyson a diddorol i ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol yn fwriadus wrth greu poteli tywod lliw i werthu yn yr acwariwm, er enghraifft. Mae athrawon yn darparu taith flynyddol i wersyll yr Urdd Glan Llyn ar gyfer y disgyblion hŷn ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol, medrau corfforol a'u medrau creadigol yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau cynhwysfawr i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn bwrpasol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso medrau ysgrifennu ymestynnol, rhifedd a datblygu eu medrau trin data digidol ar draws y cwricwlwm.

Mae strategaethau asesu ffurfiannol yn weithredol ar draws yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rhoi adborth llafar pwrpasol i'w disgyblion ac yn

ymyrryd yn feddylgar i'w cynorthwyo ar adegau priodol yn ystod y wers ac i'w hannog i ddyfalbarhau. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn eu hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant ac i fyfyrio ymhellach ar sut i wella eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn trafod yn hyderus ffyrdd o wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol. Lleiafrif o ddisgyblion sy'n gwybod sut i fynd ati i wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn creu cymuned ddiogel, hapus a gofalgar sy'n llwyddo i feithrin medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu awyrgylch gynhwysol, cynhaliol a diogel sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a brwdfrydedd y disgyblion at ddysgu.

Agwedd nodedig o'r ysgol yw'r modd y mae'n blaenoriaethu cynhaliath lles ac iechyd meddwl disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion. Maent yn cryfhau eu dealltwriaeth o anghenion emosiynol ac ymddygiad disgyblion drwy ddefnydd medrus o broffiliau neu holiaduron penodol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau cefnogaeth gadarn i'r disgyblion trwy fynd i'r afael â gwella agweddau emosiynol a chymdeithasol y disgyblion ac i osod targedau realistig a chyraeddadwy ar eu cyfer. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n hynod o effeithiol trwy ddarparu cyfleoedd apelgar i'r disgyblion ofalu am anifeiliaid anwes yn yr ysgol. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder a'u medrau cymdeithasol yn ogystal â'u gallu i reoli eu hemosiynau yn hynod effeithiol.

Bu i'r disgyblion bregus fynychu'r ysgol drwy gyfnodau clo y pandemig a chynhaliwyd sesiynau 'galw i mewn' cyson hefyd gyda nhw a'u teuluoedd. Wrth i'r ysgol ailagor, darparwyd cyfle i'r disgyblion fynychu sesiynau oedd yn eu cymell i fynegi eu hemosiynau drwy ddrama. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu agweddau o'u lles a'u medrau llafaredd. Mae disgyblion bregus dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 a 2 yn mynychu'r 'Hafan' yn y boreau. Yn fan hyn, mae'r staff yn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i adnabod a rheoli eu teimladau, eu medrau cydweithio a chyd-chwarae yn ogystal â datblygu eu llafaredd a'u hiaith fynegiannol.

Mae staff yn darparu ystod eang o grwpiau ymyrraeth sy'n llwyddo i wella medrau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi hyder a lleihau pryderon ac yn llwyddo i ddatblygu gwydnwch a hunanddelwedd gadarnhaol ymysg y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae ymroddiad yr ysgol i ddarparu ar y cyd efo asiantaethau allanol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella agweddau o'u lles, yn ogystal â hyfforddiant perthnasol i staff, sydd wedi cryfhau'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion mwyaf bregus a'r rhai gydag anghenion dysgu yn fwy awyddus i ddod i'r ysgol, yn fwy parod i ymateb i staff ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol wrth anelu i gyrraedd eu targedau gwelliant.

Ceir systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion, ac mae trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion penodol yn drylwyr. Mae athrawon yn creu proffiliau un-tudalen defnyddiol i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â chynlluniau addysg unigol o ansawdd da. Maent yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella sy'n helpu staff i fonitro cynnydd disgyblion yn

effeithiol. Mae athrawon yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda rhieni a'u plant ynghyd ac asiantaethau perthnasol, er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn hybu datblygu medrau cymdeithasol, moesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol yn ystod sesiynau addoli ar y cyd a gwersi dosbarth. Cynhelir gwasanaeth addoli rheolaidd sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrion ar agweddau crefyddol pwysig fel gonestrwydd a bod yn garedig at eraill. Er bod cyfleoedd i dderbyn cyfrifoldebau trwy grwpiau llais y plentyn fel y cyngor ysgol, wedi eu cyfyngu oherwydd y pandemig, mae'r disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu iddynt.

Mae pwyslais amlwg ar ddatblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion. Mae athrawon yn trefnu cyfleoedd cyson i berfformwyr, artistiaid, beirdd a cherddorion weithio gyda disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn gyda pherfformwraig leol i greu nifer o ganeuon a rhigymau a'u cofnodi mewn llyfryn a chryno ddisg i'w rhannu gyda rhieni. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith lafar disgyblion yn ogystal â'u hyder a'u gallu i gydweithio. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i gael cyfleoedd cyson i weithio'n creadigol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau. Enghraifft drawiadol o hyn yw gwaith y disgyblion hŷn wrth weithio gydag artist lleol i greu murlun ar y storfa offer ar y buarth.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o wersi ymarfer corff a gweithgareddau ffitrwydd, fel rhedeg neu gerdded milltir yn ogystal â chlybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol ac yn y gymuned. Mae hyn, ynghyd â phrosiectau fel 'Y Bocs Bwyd Anhygoel' ac ymchwil ar y galon, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hybu presenoldeb da. Mae hyn yn cynnwys monitro dyddiol, a chadw cysylltiadau agos â'r rhieni yn ogystal â swyddogion presenoldeb yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn gyson.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau amddiffyn plant ac yn cynnal asesiadau risg manwl o fewn gweithgareddau ysgol a chyn mynd ar deithiau allanol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'r weledigaeth o 'Weithio ynghyd, llwyddo'n y byd ac agor drws i'r dyfodol' ac o ddatblygu disgyblion iach a hyderus mewn cymuned hapus a chroesawgar wedi'i rhannu'n llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn arddel y weledigaeth yn gadarn ac yn ei chyfleu'n effeithiol i'r holl staff, disgyblion, llywodraethwyr, a'r rhieni. Caiff gefnogaeth gref gan y dirprwy. Mae'r ddwy yn angerddol am y gymuned maent yn ei gwasanaethu. Er yr heriau y mae'r ysgol wedi eu hwynebu o ganlyniad i gyfnod y pandemig, mae arweinwyr yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned glòs ymhlith rhieni,

staff a disgyblion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r pwyslais amlwg ar strategaethau lles wrth sefydlu grwpiau anogaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus. Mae arweinwyr wedi adnabod y disgyblion hyn a thrwy ddatblygu cyswllt agos â rhieni ac asiantaethau allannol, maent wedi datblygu darpariaeth gynhaliol iawn, fel yr Hafan a Hwb, ar eu cyfer.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion ac, o ganlyniad, mae ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r gwaith tîm sy'n bodoli yn yr ysgol yn gryfder ac yn sicrhau bod pob un yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae ffocws cryf ar ddarparu amrywiaeth o brofiadau i ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi diwylliant a hanes eu hardal leol yn fawr. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad yr ysgol i ddatblygu prosiectau celfyddydol ar y thema 'Llechi' gan gydweithio ag artistiaid lleol, ynghyd â mentora ysgol leol drwy eu harwain drwy'r prosiect.

Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n effeithiol a chydwybodol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol, yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd y dysgu a'r addysgu i fonitro cynnydd disgyblion. Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn rhoi ystyriaeth gyson i farn disgyblion a rhieni ar agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd medrus o ganfyddiadau hunanwerthuso i bennu blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er enghraifft, wrth werthuso effaith y pandemig ar fedrau disgyblion, gwelwyd dirywiad mewn medrau llafar disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi ymrwmo i brosiect rhanbarthol sy'n targedu medrau llafar. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr i'r llywodraethwyr sydd yn dangos lle mae angen gwelliant pellach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae hyn yn cynnwys y Cwricwlwm i Gymru, diwygio'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ac adfer ar ôl y pandemig. Mae ymdeimlad cryf ymhlith yr holl staff o gyfeiriad strategol cytûn a chyfrifoldeb am gyflawni blaenoriaethau hyn. Mae arweinwyr yn gweithredu'n fwriadus wrth leihau effeithiau tlodi ar gynnydd disgyblion, yn enwedig wrth i nifer y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gynyddu yn ystod cyfnod y pandemig. Maent yn defnyddio cyllid yn bwrpasol er mwyn targedu disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae dulliau cyfathrebu bwriadus yn sicrhau bod rhieni'n cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. Yn ystod y cyfnodau clo, darparwyd cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion drwy ymuno mewn gwersi byw, i ddatblygu gwell cyswllt rhwng yr ysgol a'r dysgwyr. Yn dilyn eu profiadau yn ystod y cyfnodau clo, adnabu'r ysgol yr angen i wella ansawdd y cyflwyniadau gan gynnig arweiniad cam-wrth-gam ynghyd â modelu'r dysgu i'r disgyblion a'u rhieni. O ganlyniad, roedd gan y disgyblion

a'u rhieni ddealltwriaeth gadarnach o ofynion y tasgau gan arwain at lefel uwch o ymgysylltu a gwaith o ansawdd gwell.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol a'r sail resymegol y tu ôl iddynt. Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o effaith cyfyngiadau'r pandemig yn enwedig ar fedrau llafar, rhifedd ac ysgrifenedig disgyblion. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda am gynnydd ac anghenion gwella'r ysgol. Mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n llwyddiannus ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yn ddarbodus. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Maent yn cysylltu gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro cyllid yn ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn gwneud defnydd synhwyrol o'r cyllid ychwanegol ynghyd ag amrywiaeth o grantiau pwrpasol, er mwyn cael effaith gadarn ar wella lles a medrau disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r nifer fawr o gymorthyddion sy'n cael eu cyflogi er mwyn arwain rhaglenni cymorth a chefnogi lles disgyblion bregus.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at <mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru>

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2022